Tŷ Penallta
Parc Tredomen
Ystrad Mynach
Hengoed CF82 7PG
Ffôn 01443 864320

Penallta House
Tredomen Park
Ystrad Mynach
Hengoed CF82 7PG
Tel 01443 864320

Diogelu Data – ffurflen Gais Gwrthrych am Wybodaeth

Mae hawl Gwrthrych am Wybodaeth yn darparu hawl i unigolyn (gwrthrych gwybodaeth), neu berson sy'n gweithredu ar ran yr unigolyn hwnnw, i gael gafael ar wybodaeth a ddelir amdanynt.

Bydd y Cyngor yn ymateb i Gais Gwrthrych am Wybodaeth o fewn 30 diwrnod i dderbyn y cais a'r prawf adnabod / dogfennau angenrheidiol a nodwyd. Gellir ymestyn y cyfnod hwn ar gyfer ceisiadau cymhleth; mewn achos o'r fath, byddwn yn eich hysbysu o hyn ac yn rhoi dyddiad cydymffurfio diwygiedig i chi.

Os hoffech gyngor neu gymorth wrth lenwi'r ffurflen hon, cysylltwch â'r Uned Llywodraethu Gwybodaeth Gorfforaethol ar 01443 86 4320.

Mae'r ffurflen hon ar gael yn Saesneg, braille ac mewn ieithoedd neu fformatau eraill ar gais.

Sut y byddwn yn defnyddio eich gwybodaeth

Bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn prosesu eich cais, yr wybodaeth sy'n berthnasol i'ch cais, eich manylion adnabod a'ch manylion cyswllt at ddibenion rhoi ymateb i chi. Cedwir copi o'ch cais a'ch ymateb am 3 blynedd.

Bydd eich cais, gan gynnwys eich manylion adnabod a'ch manylion cyswllt, yn cael ei ddosbarthu i feysydd gwasanaeth perthnasol ac aelodau etholedig a all naill ai fod yn dal yr wybodaeth yr ydych wedi gofyn amdani neu ymwneud â phrosesu ceisiadau. Gellir ymgynghori â sefydliadau ac unigolion eraill a allai gael eu heffeithio gan ddatgelu'r wybodaeth a ofynnwyd amdani cyn gwneud penderfyniad ar y datgeliad ac efallai y bydd pwy ydych yn cael ei ddatgelu iddynt.

Pe baech yn gwneud cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth neu eraill mewn perthynas â phrosesu eich cais, gellir rhannu copïau o'ch cais, ymateb ac unrhyw ohebiaeth ychwanegol rhyngoch chi a Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili sy'n berthnasol i'ch cais gyda hwynt.

Mae gennych nifer o hawliau mewn perthynas â'ch gwybodaeth, gan gynnwys yr hawl i gael gafael ar wybodaeth rydym yn ei dal amdanoch chi a'r hawl i gwyno os ydych chi'n anhapus â'r ffordd yr ydym wedi trin eich cais neu eich gwybodaeth.

Cliciwch ar y ddolen ganlynol i gael mwy o wybodaeth ynglŷn â sut rydym yn prosesu eich gwybodaeth a'ch hawliau:

Dolen i'r Hysbysiad Preifatrwydd llawn ar y Wefan

At ddefnydd swyddfa yn unig

Dyddiad Derbyn:		Swyddog Derbyn:		Cyf. Cais Gwrthrych am Wybodaeth:	

Adran 1 Prawf Adnabod / Dogfennau sydd eu hangen i gefnogi'r cais

Isod rhoddir manylion am y prawf adnabod / dogfennau sydd eu hangen i gefnogi Cais Gwrthrych am Wybodaeth.

Perthynas i'r Gwrthrych Gwybodaeth	Prawf Adnabod / Dogfennau sydd eu hangen
Fi yw'r gwrthrych gwybodaeth sy'n gwneud cais am wybodaeth amdanaf fy hun.	• un math o brawf adnabod gwreiddiol sy'n cynnwys eich cyfeiriad cyfredol chi (ceisydd) e.e. bil cyfleustod diweddar (o fewn 3 mis), ac • un math o brawf adnabod gwreiddiol sy'n cynnwys eich llofnod chi (ceisydd) e.e. trwydded yrru ddilys neu basbort.
Rwy'n gwneud y cais ar ran plentyn y mae gennyf gyfrifoldeb rhiant amdano/amdani, gan nad yw'r plentyn yn gallu deall goblygiadau gwneud cais / y wybodaeth sy'n debygol o gael ei darparu.[1]	• un math o brawf adnabod gwreiddiol sy'n cynnwys eich cyfeiriad cyfredol chi (ceisydd) e.e. bil cyfleustod diweddar (o fewn 3 mis), ac • un math o brawf adnabod gwreiddiol sy'n cynnwys eich llofnod chi (ceisydd) e.e. trwydded yrru ddilys neu basbort.
Rwy'n gyfreithiwr sy'n gwneud y cais ar ran fy nghleient.	• un math o brawf adnabod gwreiddiol sy'n cynnwys cyfeiriad cyfredol y gwrthrych gwybodaeth e.e. bil cyfleustod diweddar (o fewn 3 mis), ac • un math o brawf adnabod gwreiddiol sy'n cynnwys llofnod y gwrthrych gwybodaeth, e.e. trwydded yrru ddilys neu basbort, a • thystiolaeth o'ch awdurdod i weithredu ar ran y gwrthrych gwybodaeth e.e. ffurflen ganiatâd wedi'i llofnodi'n ddiweddar (o fewn 3 mis) neu Atwrneiaeth Arhosol - Iechyd a Lles neu debyg.
Unrhyw berson arall sydd ag awdurdod i weithredu ar ran y gwrthrych gwybodaeth.	• un math o brawf adnabod gwreiddiol sy'n cynnwys cyfeiriad cyfredol y gwrthrych gwybodaeth e.e. bil cyfleustod diweddar (o fewn 3 mis), ac • un math o brawf adnabod gwreiddiol sy'n cynnwys llofnod y gwrthrych gwybodaeth, e.e. trwydded yrru ddilys neu basbort, ac • un math o brawf adnabod gwreiddiol sy'n cynnwys eich cyfeiriad cyfredol chi (ceisydd) e.e. bil cyfleustod diweddar (o fewn 3 mis), ac • un math o brawf adnabod gwreiddiol sy'n cynnwys eich llofnod chi (ceisydd) e.e. trwydded yrru ddilys neu basbort. • thystiolaeth o'ch awdurdod i weithredu ar ran y gwrthrych gwybodaeth e.e. ffurflen ganiatâd wedi'i llofnodi'n ddiweddar (o fewn 3 mis) neu Atwrneiaeth Arhosol - Iechyd a Lles neu debyg.

Nodiadau

[1] Dylid nodi y gall rhiant gael mynediad i gofnodion eu plentyn yn unig os ystyrir bod hyn er budd y plentyn. Os yw plentyn yn 12 oed neu'n hŷn, tybir bod y gan y plentyn fel rheol y gallu i ddeall goblygiadau gwneud cais, felly dylai'r plentyn naill ai wneud y cais eu hunain neu fod yn rhaid i'r cais gael ei wneud gyda chaniatâd y plentyn. Os yw'r cais yn cael ei wneud gyda chaniatâd y plentyn, gweler 'Unrhyw berson arall sydd ag awdurdod i weithredu ar ran y gwrthrych gwybodaeth' ar gyfer y prawf adnabod / dogfennau sydd eu hangen.

Adran 2 Manylion y Gwrthrych Gwybodaeth a'r Ceisydd

	Manylion y Gwrthrych Gwybodaeth	**Manylion y Ceisydd** (os nad ef/hi yw'r gwrthrych gwybodaeth)
Teitl:		
Enw Cyntaf:		
Cyfenw:		
Unrhyw Enw Arall:		
Dyddiad Geni:		
Cyfeiriad Presennol:		
Cyfeiriad Blaenorol: (Os ydych wedi symud yn y 3 blynedd diwethaf)		
Rhif Ffôn:		
Cyfeiriad E-bost:		

Adran 3 Y cais

Er mwyn ein galluogi i ddod o hyd i'r gwrthrych gwybodaeth gofynnol, os gwelwch yn dda rhowch gymaint o'r wybodaeth ganlynol ag y gallwch: -

Rhowch ddisgrifiad manwl o'r wybodaeth yr ydych yn gwneud cais amdani:

Gwasanaethau Cyngor yr ydych wedi eu derbyn sy'n berthnasol i'r cais:

Unrhyw gyfeirnodau neu enwau cyswllt a allai fod yn berthnasol:

Unrhyw ddyddiadau a allai fod yn berthnasol:

Unrhyw wybodaeth ychwanegol a allai fod yn berthnasol i'r cais hwn:

Adran 4 Datganiad

I'w gwblhau gan bob ymgeisydd. Nodwch y gall unrhyw ymgais i gamarwain Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili (CBSC) arwain at erlyniad.

Yr wyf yn deall:

- ei bod yn angenrheidiol darparu'r prawf adnabod / dogfennau perthnasol a nodwyd yn Adran 1 i CBSC er mwyn cadarnhau pwy yw'r gwrthrych gwybodaeth a'r ceisydd ac i sefydlu'r awdurdod i dderbyn y wybodaeth y gofynnwyd amdani.
- efallai y bydd angen i CBSC gael rhagor o wybodaeth oddi wrthyf er mwyn dod o hyd i'r wybodaeth y gofynnwyd amdani. Bydd y cais yn cael ei oedi hyd nes y derbynnir hyn.
- efallai y bydd angen i CBSC ymgynghori â thrydydd parti y gallai datgelu gwybodaeth effeithio arnynt.
- bod cais gwrthrych gwybodaeth yn gais am wybodaeth ar gyfer y gwrthrych gwybodaeth a nodwyd yn Adran 2 ac os yw'r wybodaeth y gofynnir amdani yn ddarostyngedig i eithriad bydd hyn yn cael ei esbonio i mi.

Arwyddwyd: …… Dyddiad:……..

Noder: Ni fydd y cyfnod cydymffurfio lle mae'n rhaid i'r Cyngor ymateb i'r cais hwn yn cychwyn hyd nes bod CBSC wedi derbyn gwybodaeth ddigonol er mwyn dod o hyd i'r wybodaeth y gofynnwyd amdani a bod y prawf adnabod / dogfennau angenrheidiol wedi'u darparu.

Adran 5 Dychwelyd y ffurflen hon

Os gwelwch yn dda dychwelwch y ffurflen hon wedi'i chwblhau a'r prawf adnabod / dogfennau sydd eu hangen at:

Uned Llywodraethu Gwybodaeth Gorfforaethol	Er mwyn sicrhau diogelwch eich dogfennau, rydym yn argymell eich bod chi'n defnyddio

Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili Tŷ Penallta Parc Tredomen Ystrad Mynach Hengoed CF82 7PG	gwasanaeth post gyda diogelwch ar gyfer eitemau gwerthfawr. Fel arall, gallwch gyflwyno eich dogfennau a'ch taliad i swyddfeydd Tŷ Penallta trwy apwyntiad. **Ffoniwch 01443 864320 neu e-bostiwch diogeludata@caerffili.gov.uk i drefnu apwyntiad.**